**Jane Hutt AM/AC**
Minister for Business and Budget
Gweinidog dros Fusnes a Chyllideb

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Ein cyf / Our ref:

Yr Arglwydd Dafydd Elis – Thomas AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

12 Ionawr 2010

Annwyl Dafydd

**Rheoliadau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurfio) (Cymru) (Diwygio) 2010**

Rwy'n ysgrifennu i'ch hysbysu iddi fod yn angenrheidiol i dorri'r rheol 21 diwrnod er mwyn dod â Rheoliadau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurio) (Cymru) (Diwygio) 2010 i rym yng Nghymru, ac i gyflwyno safonau Trawsgydymffurio newydd yn 2010, ynghyd â diweddaru'r cyfeiriadau at ddeddfwriaeth Ewropeaidd, a oedd yn ofynnol yn ôl deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd, i ddod i rym ar 1 Ionawr 2010. Gwnaethpwyd y Rheoliadau hyn, a'u gosod yn y Swyddfa Gyflwyno erbyn 12 Ionawr 2010, a dônt i rym ar 13 Ionawr 2010.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Trawsgydymffurio) (Cymru) 2004 ("y prif Reoliadau"). Mae'r prif Reoliadau yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru ar gyfer gweinyddu Rheoliad y Cyngor (Y Comisiwn Ewropeaidd) Rhif 73/2009 ac offerynnau Cymunedol cysylltiedig eraill sy'n ymwneud â chymorth uniongyrchol o dan y Polisi Amaethyddol Cyffredin. Mae'r diwygiadau hyn yn gosod safonau newydd o dan y rheolau trawsgydymffurfio o ran cadw ffosydd, pyllau ac ymylon 1 metr ar hyd ffiniau sydd wedi'u llenwi, yn ogystal â chydymffurfio â gweithdrefnau ac amodau awdurdodi o fewn trwydded tynnu dŵr.

Yn dilyn Archwiliad Iechyd y Polisi Amaethyddol Cyffredin, bu'r Comisiwn Ewropeaidd yn dirymu ac/neu'n diwygio Rheoliadau Ewrop sy'n gysylltiedig â Thaliadau Uniongyrchol. Rhagwelwyd y byddai Rheoliadau allweddol penodol yn cael eu dirymu a'u hail-wneud ddiwedd Medi/ddechrau Hydref, ond yn anffodus, hysbyswyd swyddogion ddiwedd Tachwedd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8129
correspondence.jane.hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu ( 100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

na fyddai'r Rheoliadau Ewropeaidd newydd yn dod i rym tan ddechrau Rhagfyr. Y gobaith oedd dirymu a disodli'r prif Reoliadau i roi Rheoliadau Ewropeaidd newydd ar waith. Yn hytrach, mae'n rhaid diwygio'r prif Reoliadau ar frys, gan bod angen gweithredu'r newidiadau i'r mesurau trawsgydymffurfio erbyn 1 Ionawr 2010, fel sy'n ofynnol yn ôl deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

Oherwydd yr oedi yn y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal â'r angen i osod sylfaen gyfreithiol ddigonol ar gyfer gweithredu'r newidiadau i'r mesur trawsgydymffurfio ar ddechrau Ionawr 2010, bu'n angenrheidiol i dorri'r rheol 21 niwrnod fel bod modd i'r Rheoliadau ddod i rym ar 13 Ionawr 2010. Os na ddaw'r Rheoliadau i rym ar 13 Ionawr 2010, ni fydd yn bosibl gweithredu'r gofynion Trawsgydymffurfio newydd yn gyfreithiol, na gosod cosbau pan fo achosion o dorri'r rheol drawsgydymffurfio. Os nad yw'r gofynion hyn yn eu lle ar ddechrau'r flwyddyn, gallai hyn olygu gwaharddiad (h.y. cosbau ariannol) gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd angen diwygio'r prif reoliadau hefyd, i gyfeirio at ddeddfwriaeth newydd yr UE, a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2010.

Am y rhesymau a amlinellwyd uchod, penderfynodd y Gweinidog dros Faterion Gwledig na fyddai'n rhesymol ymarferol i'r Rheoliadau gael eu gwneud yn ddwyieithog. Fodd bynnag, bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael cyn bo hir.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Janet Ryder, Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth a Stephen George, Clerc y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth.

Yn gywir